Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Trefriw**
**Ffordd Llanrwst**
**Trefriw**
**Llanrwst**
**Conwy**
**LL27 0RX**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2014**

## Cyd-destun

Mae’r ysgol wedi ei lleoli ynghanol pentref Trefriw yn sir Conwy. Mae'r ysgol yn gwasanaethu plant y pentref yn bennaf yn ogystal â rhai disgyblion o ardal Llanrhychwyn. Mae nifer arwyddocaol o ddisgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg fel prif iaith. Tua 8% sydd o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith yr aelwyd.

Yn ystod yr arolygiad, roedd 35 o blant ar gofrestr yr ysgol ac oddeutu 29% ohonynt ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn debyg i’r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oedd unrhyw ddisgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae’r ysgol yn derbyn disgyblion yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn llawn amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Ar hyn o bryd, mae 8% o'r disgyblion yn rhai sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r ffigwr ar gyfer Conwy ac yn arwyddocaol is na'r ffigwr ar gyfer Cymru.

Cynhaliwyd yr arolygiad blaenorol ar yr ysgol ym Mehefin 2008. Penodwyd y pennaeth presennol yn 2003.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Trefriw yn 2013-2014 yw £5,724. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £14,575 a'r lleiafswm yw £3,230. Mae Ysgol Trefriw yn y 12fed safle o'r 58 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod bron pob disgybl yn cyfranogi'n frwdfrydig yn eu gwaith ac yn awyddus i ddysgu;
- bod yr ysgol yn cynllunio profiadau dysgu addas ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol;
- bod rheolaeth ddosbarth yn gyson dda drwy'r ysgol a'r staff yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar; a
- bod yr ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi cefnogaeth dda i'r holl ddisgyblion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar gynnal safonau'r ysgol;
- bod yr ysgol yn cydgysylltu blaenoriaethau'r ysgol, datblygiad proffesiynol y staff a thargedau rheoli perfformiad yn effeithiol;
- bod trefniadau hunanarfarnu'r ysgol wedi eu seilio ar ystod briodol o dystiolaeth;
- bod yr ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau cadarn gydag asiantaethau allanol a'r awdurdod lleol; a
- bod yr ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus mewn rhwydwaith broffesiynol gyda dwy ysgol gynradd o fewn y dalgylch.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau disgyblion i ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith

A2 Lleihau'r defnydd o daflenni sy'n gorgyfeirio gwaith disgyblion

A3 Sicrhau bod cyfrifoldebau athrawon yn glir ac yn cyd-fynd â chynnwys swydd-ddisgrifiadau

A4 Datblygu rôl y corff llywodraethol i weithredu'n effeithiol fel cyfaill beirniadol

A5 Sicrhau bod blaenoriaethau cynlluniau gwella yn cael eu monitro'n effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd Cymraeg. Mae bron pob disgybl yn defnyddio'r iaith Gymraeg yn rhugl ac yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau a chyfarwyddiadau gan oedolion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn defnyddio geirfa dda yn eu hiaith lafar. Maent yn mynegi eu teimladau a dwyn i gof eu dysgu blaenorol yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn darllen eu gwaith eu hunain a'u llyfrau darllen i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu gallu i ffurfio llythrennau ac yn dechrau atalnodi brawddegau. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall bron pob disgybl ysgrifennu brawddegau synhwyrol i wahanol bwrpasau, gan ddangos gafael ar atalnodi sylfaenol. Gall y mwyaf abl ysgrifennu'n goeth gan ddefnyddio ystod ehangach o atalnodi a geirfa.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn trafod eu gwaith yn hyderus a gall y rhan fwyaf fynegi barn mewn modd aeddfed. Mae bron pob disgybl yn darllen ar goedd yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae llawer yn darllen gartref er pleser ac yn trafod eu hoff lyfrau ac awduron yn fanwl. Mae'r rhan fwyaf yn gallu ysgrifennu'n briodol i ystod eang o bwrpasau yn y ddwy iaith. Maent yn atalnodi'n lled gywir ac yn trefnu eu gwaith mewn paragraffau. Yn gyffredinol, mae safonau cyflwyniad a llawysgrifen yn briodol. Fodd bynnag, nid yw medrau disgyblion i ysgrifennu'n estynedig yn y Gymraeg na'r Saesneg wedi datblygu digon.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu. Mae llawer o'r disgyblion yn adio ac yn tynnu'n gywir gan ddefnyddio degau ac unedau, yn haneru neu'n dyblu rhifau ac yn datrys problemau syml. Mae'r mwyafrif yn cryfhau eu dealltwriaeth o fesur, arian ac amser ac yn datblygu dealltwriaeth o siâp yn effeithiol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mewn gweithgareddau rhifedd ar draws ystod o bynciau yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth dda o strategaethau i ddatrys problemau rhif sy'n gynyddol heriol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu dealltwriaeth o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfan a degolion ac yn darllen graddfeydd ar fapiau a graffiau syml. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio'r medrau rhifedd y maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg mewn pynciau eraill, yn arbennig mewn gwyddoniaeth a daearyddiaeth.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da, ond nid yw disgyblion o allu uwch bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

Gan fod niferoedd disgyblion yr ysgol yn fychan, nid yw’n bosibl cymharu cyflawniad disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim gyda’r gweddill yn ystyrlon, nac ychwaith gymharu cyflawniad y bechgyn gyda chyflawniad y merched.

Roedd perfformiad 2013 yn well nag yn 2012 ar draws pob maes dysgu. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail cinio am ddim, roedd yr ysgol yn y 25% isaf ar gyfer y Dangosydd Cyfnod Sylfaen a Chymraeg a’r 25% uchaf ar gyfer datblygiad mathemateg.

Roedd perfformiad ar y deilliant uwch yn 2013 yn amrywio, gan osod yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer datblygiad mathemategol a’r 25% isaf ar gyfer iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg. Roedd y perfformiad hwn yn well nag yn 2012.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012 a 2013, roedd pob disgybl wedi cyflawni’r dangosydd pynciau craidd, ac yn cyflawni lefel 4 neu uwch ym mhob pwnc yn unigol. Ac eithrio’r Gymraeg, bu perfformiad tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Dros y cyfnod hwn, bu perfformiad yr ysgol yn gyson uwch na’r teulu ac yn gyffredinol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion eraill ar sail cinio am ddim.

Yn 2013, roedd perfformiad ar y lefel uwch yn amrywiol. Roedd yr ysgol yn y 50% uwch ar gyfer y dangosydd pynciau craidd a Chymraeg ond yn y 50% is ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth. Dros amser, mae perfformiad ar y lefel uwch wedi amrywio heb duedd amlwg.

**Lles: Da**

Mae’r disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta’n iach ac ymarfer corff yn rheolaidd. Mae pob disgybl yn teimlo’n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion yn y 50% is dros y pedair blynedd hyd at 2013 o gymharu ag ysgolion eraill tebyg o ran cinio am ddim. Fodd bynnag, mae presenoldeb wedi gwella’n arwyddocaol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

Mae ymddygiad bron pob un o’r disgyblion yn dda yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn cyfranogi’n frwdfrydig yn eu gwaith ac yn awyddus i ddysgu. Mae bron pob disgybl yn canolbwyntio’n dda wrth iddynt weithio ar dasg.

Mae llawer o’r disgyblion yn derbyn cyfrifoldebau yn gydwybodol o fewn cymuned yr ysgol. Mae mwyafrif y disgyblion yn weithgar yn y gymuned ac yn cyfrannu’n bur gyson at amrywiaeth o weithgareddau buddiol yn yr ardal leol. Mae pob disgybl yn groesawgar iawn ac yn dangos parch tuag at gyfoedion ac oedolion. Maent yn ofalgar iawn o’i gilydd.

Mae’r cyngor ysgol yn cyfrannu’n effeithiol at wella agweddau o ddarpariaeth yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn cymryd digon o gyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu priodol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn cydweithio'n fwriadus i gynllunio rhaglenni gwaith addas. Mae'r ysgol wedi elwa hefyd o gydgynllunio a chreu adnoddau gyda dwy ysgol gyfagos. Mae darpariaeth yr ysgol yn cyfarfod â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn cyd-fynd ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i gyfoethogi dysgu disgyblion trwy amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnwys ymweliadau lleol.

Trwy amrywiaeth o themâu pwrpasol, mae'r athrawon yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddatblygu gwybodaeth y disgyblion am faterion dinasyddiaeth fyd-eang drwy elfennau pwrpasol o waith thema'r dosbarthiadau. Mae ystod dda o gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd datblygiad cynaliadwy, gan gynnwys ailgylchu ac arbed ynni.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn effeithiol. Rhoddir cyfleoedd cynhwysfawr iddynt ddysgu am ddiwylliant eu hardal leol a Chymru gyfan.

## Addysgu: Da

Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu profiadau dysgu addas sydd yn cyfarfod ag anghenion pob disgybl. Mae'r addysgu yn rhan fwyaf y gwersi yn sicrhau bod y disgyblion wedi'u cymell yn dda ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu sydd yn addas i gynnwys y gwersi. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae'r defnydd sylweddol o daflenni, a gorgyfarwyddo gan athrawon, yn cyfyngu ar rai agweddau o ddysgu'r disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio gwaith cymorthyddion addysgu yn effeithiol ac mae cyfraniad y cymorthyddion yn cryfhau dysgu'r disgyblion. Mae rheolaeth ddosbarth yn gyson dda drwy'r ysgol ac mae'r staff yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar.

Mae'r athrawon yn rhoi adborth cynhaliol ar lafar yn ystod gwersi a defnyddiant ganmoliaeth yn rheolaidd i annog disgyblion llai hyderus. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi adolygu ei gweithdrefnau ar gyfer marcio a chyflwyno adborth i'r disgyblion yn drwyadl. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ac effeithiol. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau yn llyfrau'r disgyblion yn gymorth iddynt wybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Serch hynny, nid oes digon o gyfleoedd hyd yma i ddisgyblion ddatblygu a gwella'r drafft cyntaf o'u gwaith, lle mae hynny'n briodol. Defnyddia athrawon ystod addas o strategaethau i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys defnydd rheolaidd o feini prawf llwyddiant. Fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser yn rhai priodol ac ond mewn lleiafrif o achosion mae'r disgyblion yn cyfrannu at eu llunio.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer arfarnu dysgu'r disgyblion ac olrhain eu cynnydd.

## Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi cefnogaeth dda i holl ddisgyblion yr ysgol.  Caiff manteision byw yn iach eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm a'i gyfoethogi mewn gweithgareddau allgyrsiol.  Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i gefnogi lles disgyblion.  Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i adnabod a chwrdd ag anghenion dysgu'r disgyblion.  Mae'r cysylltiadau rheolaidd gyda'r swyddog heddlu cymunedol yn cefnogi'r gynhaliaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn effeithiol.  Mae'r disgyblion yn elwa o gefnogaeth gan wasanaethau arbenigol fel seicoleg addysg a therapi iaith a lleferedd.

Mae staff yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r staff yn darparu cefnogaeth effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn sicrhau eu bod yn cael mynediad llawn i bob agwedd o gwricwlwm yr ysgol.  Mae cymorthyddion dysgu o fewn y dosbarthiadau yn darparu cefnogaeth werthfawr, ac mae'r ysgol yn cynllunio strategaethau ymyrraeth effeithiol i ateb gofynion penodol pob disgybl.  Mae cynlluniau addysg unigol addas yn eu lle ac mae'r trefniadau ar gyfer adolygiadau ar y cyd â rhieni yn briodol.  Serch hynny, nid yw'r disgyblion yn cymryd rhan digon gweithredol yn y broses o lunio ac adolygu cynnydd yn erbyn y  targedau.  Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth yn y dosbarthiadau yn adlewyrchu cynnwys y cynlluniau addysg unigol yn llawn.

## Yr amgylchedd dysgu:  Da

Mae ethos yr ysgol yn un gofalgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal a'r gallu i werthfawrogi amrywiaeth.  Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bob disgybl, ac mae agwedd gefnogol a chyfeillgar y staff yn sicrhau ymddygiad da iawn ar draws yr ysgol.  Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol ac amser cylch dosbarthiadau unigol yn darparu cyfleoedd addas i hybu'r meysydd hyn.

Gwneir defnydd da o'r gofod o fewn yr adeilad.  Mae'r arddangosfeydd o waith gorau'r disgyblion ar furiau'r dosbarthiadau a'r coridorau yn rhoi cyfle iddynt ymfalchïo yn eu cyflawniadau ac yn hybu dysgu symbylol a chyfoethog.  Mae'r ardaloedd allanol wedi eu cynllunio'n effeithiol o fewn cyfyngiadau'r safle gan gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.  Mae adeiladau'r ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw i safonau priodol.  Mae digon o adnoddau o ansawdd addas yn yr ysgol a gwna'r disgyblion ddefnydd effeithiol ohonynt.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

## Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar gynnal safonau'r ysgol. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae arweinwyr yr ysgol yn dadansoddi data perfformiad yr ysgol yn fanwl ac yn ymateb i dangyflawniad trwy gynllunio'n strategol ar gyfer gwelliant.

Mae swydd ddisgrifiadau'r staff yn gyfredol ac, yn gyffredinol, yn nodi eu rôl a'u cyfrifoldebau'n addas. Mae'r cydlynwyr pwnc yn cymryd rôl gynyddol o fonitro ansawdd darpariaeth a safonau gwaith y disgyblion. Serch hynny, nid yw rôl cydlynwyr pwnc wedi datblygu'n llawn, yn enwedig wrth fonitro safonau'r addysgu, a monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun datblygu.

Mae'r ysgol yn cydgysylltu blaenoriaethau'r ysgol, datblygiad proffesiynol y staff a thargedau rheoli perfformiad yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael sylw priodol yng ngwaith yr ysgol ac mae'r ysgol yn gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Mae'r corff llywodraethol yn frwdfrydig ac yn dechrau cymryd rôl fwy strategol ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn monitro cyllideb yr ysgol yn briodol ac yn cymryd rôl weithredol wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â gwariant. Trwy ymweld â'r ysgol, monitro'r addysgu a chraffu ar lyfrau, mae eu dealltwriaeth o safonau'r ysgol yn datblygu'n briodol. Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau cyson gan y pennaeth ar gyrhaeddiad disgyblion a pherfformiad yr ysgol. Mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion y teulu ac ysgolion tebyg yn datblygu'n briodol. Er hynny, nid yw eu gallu i herio'r ysgol a gweithredu fel cyfeillion beirniadol wedi datblygu'n llawn.

## Gwella ansawdd: Digonol

Mae trefniadau hunanarfarnu'r ysgol wedi eu seilio'n briodol ar ddadansoddiadau manwl o ddata, gwybodaeth yn deillio o fonitro gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau monitro yn ddigon arfarnol. O ganlyniad, mae'r ddogfen hunanarfarnu yn rhy ddisgrifiadol mewn mannau, ac nid yw'n rhoi darlun digon clir o'r agweddau penodol sydd angen eu gwella. Mae gan yr athrawon ymwybyddiaeth addas o ddata perfformiad ac o gynnydd disgyblion. Mae'r trefniadau hunanarfarnu yn rhoi ystyriaeth gynyddol i farn y disgyblion, llywodraethwyr a rhieni.

Yn gyffredinol, mae cyswllt addas rhwng deilliannau'r broses hunanarfarnu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau. Mae wedi ei gostio'n ofalus ac mae'r amserlen weithredu a chyfrifoldebau staff wedi eu nodi'n glir. Serch hynny, nid yw'r blaenoriaethau'n ddigon penodol nac yn ddigon meintiol mewn mannau. O ganlyniad, nid yw'r cynllun yn cael ei fonitro'n ddigon effeithiol gan arweinwyr yr ysgol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i arfarnu cynnydd yn ystyrlon yn erbyn y meini prawf llwyddiant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaethau.

Mae perthynas dda yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni ac maent yn gefnogol iawn i waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni yn effeithiol ac yn cynnal cyfarfodydd defnyddiol iddynt drafod gwaith a safonau eu plant. Mae'r ysgol yn elwa o weithgareddau rheolaidd Cyfeillion yr Ysgol i brynu adnoddau dysgu addas sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion. Mae cefnogaeth ddiweddar wedi sicrhau bod disgyblion yn elwa o ymweliadau addysgol a chaledwedd TGCh ychwanegol.

Mae partneriaeth dda rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae disgyblion yr ysgol yn ymweld â'r capel cyfagos i gyfrannu at wasanaethau crefyddol ac mae'r gweinidog lleol yn arwain gwasanaethau'n rheolaidd yn yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad ysbrydol y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r ysgolion cynradd lleol a'r ysgol uwchradd i gydsafoni a chymedroli asesiadau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae hyn yn datblygu hyder athrawon wrth lefelu gwaith disgyblion. Cydweithia'r ysgol yn dda gyda'r ysgol uwchradd leol ac mae trefniadau effeithiol i hybu lles disgyblion wrth iddynt drosglwyddo i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau cadarn gydag asiantaethau allanol a'r awdurdod lleol. Enghraifft o hyn yw'r gefnogaeth gwricwlaidd effeithiol a dderbyniodd yr ysgol i ddatblygu'r Gymraeg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llythrennedd y disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i sicrhau bod egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus. Gwneir defnydd effeithiol iawn o amser ac arbenigedd cymorthyddion addysgu i gefnogi anghenion disgyblion unigol a grwpiau.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad, sy'n ymateb i anghenion datblygiad proffesiynol yr athrawon a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol ar faich gwaith athrawon.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gyda dwy ysgol gynradd o fewn y dalgylch. Mae hyn wedi arwain at greu cynlluniau gwaith a darparu adnoddau sy'n sicrhau cysondeb a chyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Mae'r ysgol wedi sicrhau ystod dda o adnoddau ac fe ddefnyddir hwy yn effeithiol i gefnogi'r dysgu.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'r grant amddifadedd i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol.

O ystyried safonau'r ysgol a chynnydd disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan mai niferoedd bychan sydd mewn blynyddoedd drwy'r ysgol mae angen bod yn ofalus wrth lunio casgliadau ar sail data perfformiad.

Yn 2013, ar gyfer y Dangosydd Cyfnod Sylfaen a'r deilliant disgwyliedig mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, roedd perfformiad yr ysgol yn is na'r teulu. Ar gyfer datblygiad mathemategol a phersonol roedd yn uwch. Roedd canlyniadau 2013 yn dangos cynnydd ar ganlyniadau 2012 ar draws pob maes dysgu.

O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail cinio am ddim, mae'r ysgol yn y 25% isaf ar gyfer y Dangosydd Cyfnod Sylfaen ac iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a'r 25% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol a gwyddoniaeth.

Yn 2013, ni chyrhaeddodd unrhyw ddisgybl y lefel uwch mewn medrau iaith ond llwyddodd pob disgybl i wneud hynny mewn datblygiad personol a chymdeithasol.

Yn 2013, yng nghyfnod allweddol 2, roedd pob disgybl yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd, ac yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4 neu uwch, ym mhob pwnc. Ac eithrio'r Gymraeg yn 2010 a 2011, bu hyn yn wir dros y pedair blynedd diwethaf.

Dros y pedair blynedd diwethaf, bu perfformiad yn gyson uwch na'r teulu a bron yn ddieithriad yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion eraill ar sail cinio am ddim.

Mae perfformiad ar y lefel uwch, sef lefel 5 neu uwch, yn amrywiol. Yn 2013, roedd perfformiad yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer Cymraeg a Saesneg ac yn y 50% is ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth. Dros amser, mae perfformiad ar y lefel uwch yn amrywio heb unrhyw duedd amlwg.

Mae niferoedd disgyblion yn rhy fychan i lunio unrhyw gasgliadau ystyrlon o safbwynt cymharu disgyblion cinio am ddim gyda'r gweddill a chymharu perfformiad bechgyn gyda pherfformiad merched.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

### Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 15 | 15<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 15 | 15<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 15 | 15<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 15 | 15<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 15 | 15<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 15 | 15<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 15 | 15<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 15 | 15<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 15 | 15<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 15 | 15<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 15 | 13<br>87%<br>77% | 2<br>13%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time. | 15 | 14<br>93%<br>84% | 1<br>7%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iwan Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Griffith | Arolygydd Tîm |
| David Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Gwenno Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ann Hughes | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.